# Tasg 3

**(Heriol, sbardun 1)**

Pa lwybrau i drenau maglev y byddech chi'n eu creu i gysylltu dau le yng Nghymru?

- Dewiswch y ddau le.
- Gweithiwch allan pa mor bell ydyn nhw mewn km. Efallai bydd angen trosi milltiroedd yn km. Cofiwch fod milltir yn 1.609344 kilometr.
- Yna, gweithiwch allan yr amser fydd ei angen ar drên maglev i wneud y daith, o gofio bod y trên yn gallu teithio 430km yr awr.
- Faint o amser mae'r daith yn ei gymryd ar hyn o bryd?
- Faint yn gynt mae'r trên maglev yn gwneud y daith – mewn munudau / mewn oriau a munudau.
- Pa ganran yn gynt mae'r trên maglev yn gwneud y daith?